

# Gêm yr ieir hapus: cyfarwyddiadau (2 a 3)

## Beth sydd ei angen arnoch:

- Bocs wyau gwag i bob chwaraewr
- Un set o *siapiau wyau* (2) neu (3) i bob chwaraewr. Ar gyfer fersiwn 2, trefnwch yr holl wyau sydd yr un lliw yn bentyrrau a'u rhoi yng nghanol y bwrdd. Ar gyfer fersiwn 3, trefnwch yr holl wyau sydd â'r un geiriau arnynt yn bentyrrau
- 'Troellwr A' wedi'i lynu ar gerdyn. Gwnewch dwll yn y canol â phensel, rhowch y bensel drwy'r twll a'i defnyddio i droelli'r cerdyn. Byddai matsien neu sgrïw bengron yn gweithio'n dda hefyd
- 'Troellwr B' (fel uchod)
- Dalen *Allwedd Troellwr B*

## Sut i chwarae:

- Chwaraewch y gêm mewn grwpiau bychain o ddim mwy na chwech o chwaraewyr.
- Mae'r chwaraewr cyntaf yn troi troellwr A. Os yw'n glanio ar yr îar gawell, mae'n rhoi'r troellwr i'r chwaraewr nesaf. Os yw'n glanio ar yr îar fuarth, yna caiff y chwaraewr cyntaf droi troellwr B.
- Pan fydd y troellwr wedi glanio ar symbol, rhaid i'r chwaraewr ddyfalu beth yw ystyr y symbol a dewis yr wy sydd â'r disgrifiad cywir. Er enghraifft, os yw'r troellwr yn glanio ar symbol y tŷ melyn, byddai'r chwaraewr yn codi'r wy sy'n dweud "lle cysurus i fyw". Gall edrych ar allwedd y troellwr i weld a yw'n iawn.
- Mae'r chwaraewr yn rhoi'r wy yn ei focs wyau. Os yw un o'r wyau hyn ganddo/ganddi eisoes, mae'n rhoi'r wy yn ôl yn y pentwr ac yna tro'r chwaraewr nesaf yw hi.
- Os yw'r troellwr yn glanio ar logo Freedom Food, mae'r chwaraewr yn codi'r wy sydd â'r symbol hwnnw, NEU unrhyw wy arall y mae arno/arni ei angen.
- Yr enillydd yw'r chwaraewr cyntaf i lenwi ei focs â'r chwe wy buarth gwahanol.

